

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau
Cymdeithasol Julie Morgan AS

22 Ebrill 2022

Cam-drin plant yn rhywiol

Annwyl Julie,

Yn ystod trafodaeth am flaenraglen waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ein cyfarfod ar 31 Mawrth 2022, un o'r materion a drafodwyd oedd cam-drin plant yn rhywiol. Trafodwyd ei effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc ac edrychwyd ar rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud i'w hatal, ac i gefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc. Gwnaethom hefyd drafod [cais gan yr NSPCC](#) i'r Pwyllgor lansio ymchwiliad i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru.

Byddem yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth a ganlyn i helpu i lywio ein penderfyniadau yn y maes hwn:

- i. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r dystiolaeth gan yr NSPCC bod y cyfyngiadau symud o ganlyniad i COVID-19, a'r ffaith bod hynny'n rhwystr i gael gafael ar gymorth, wedi cynyddu'r risg o gam-drin plant yn rhywiol mewn rhi achosion? Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd – a pha gamau y bydd yn eu cymryd – i sicrhau bod gan yr awdurdodau perthnasol y gallu a'r arbenigedd i ymateb yn briodol i bob achos o gam-drin plant yn rhywiol?
- ii. Unrhyw dueddiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi o ran nifer y plant [ar y gofrestr amddiffyn plant, y rhai a gafodd eu rhoi mewn gofal](#) a'r [rhai y mae angen gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol arnynt](#) yn ystod blynyddoedd ariannol 2019-20, 2020-21, a 2021-22?
- iii. Diweddariad ar adolygiad Llywodraeth Cymru o'r dystiolaeth o ran effaith ei [Chynllun Gweithredu Cenedlaethol: Atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol](#), a fydd yn dechrau

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

ar 31 Ionawr 2022, a'i chynlluniau i ymgysylltu â Byrddau Diogelu a rhanddeiliaid eraill ar unrhyw gamau nesaf.

- iv. Barn Llywodraeth Cymru ar alwadau gan yr NSPCC am gynllun diogelwch ar-lein gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar blant a phobl ifanc ac sy'n cysylltu'r holl bartneriaid drwy ddull Cymru gyfan o amddiffyn ac atal.
- v. Barn Llywodraeth Cymru ar y canlynol:
 - canfyddiadau'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol mewn perthynas â Chymru hyd yma yn gyffredinol gan gynnwys ei waith ymchwil a'i adroddiadau ymchwil;
 - sut y mae canfyddiadau'r ymchwiliad hwn ledled y DU yn bwydo i mewn i bolisi ac arferion Cymru;
 - perfformiad awdurdodau cyhoeddus a amlinellir yn yr Adroddiad o fis Chwefror 2022 ar rwydweithiau wedi'u trefnu yn ardal Cyngor Dinas a Sir Abertawe;
 - ymateb Ysgrifennydd Cartref y DU i'r adroddiad hwnnw, gan gynnwys comisiynu arolygiad cenedlaethol i ymateb yr heddlu i gam-drin plant yn rhywiol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth hon ataf erbyn dydd Gwener 27 Mai 2022 fan bellaf.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.